

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Craffu Cymunedau Ffyniannus

DYDDIAD: 20 Ionawr a 11 Mawrth 2022

LLEOLIAD: Ar-lein

TEITL: Trafodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ar gynllunio a lefelau ffosffad

PWRPAS YR ADRODDIAD: Cyflwyno swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a DCWW

Y RHESWM Y MAE GOFYNNODD YR AELODAU AR I SWYDDOGION CNC A DCWW GAEL CRAFFU WEDI GOFYN AM eu gwahodd i'r Pwyllgor Craffu.

Y WYBODAETH:

CEFNDIR: Ym mis Ionawr 2021 rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor cynllunio dros dro ynghylch datblygu yn nalgylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru. Yn dilyn monitro cydymffurfiaeth Afon Teifi, a oedd yn gweld methiant ysbeidiol o ran lefelau ffosffad, roedd y cyngor hwn yn sicrhau na fyddid yn caniatáu unrhyw ddatblygiad pellach a oedd â'r potensial i gynyddu lefelau ffosffad yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol.

Y SEFYLLFA BRESENNOL: Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi cael effaith ganlyniadol sylweddol ledled y sir:

1. Effeithir ar y 3 prif Ganolfan Gwasanaethau Trefol yng Ngheredigion, sef Llanbedr Pont Steffan, Tregaron a Llandysul, a'r aneddiadau cyfagos
2. Rhoddwyd saib ar y Cynllun Datblygu Lleol
3. Nid yw'n bosib cyflenwi'r safleoedd a neilltuwyd yn yr ardal yr effeithir arni (y bwriadwyd i 114 o'r 500 o gartrefi fod yn rhai fforddiadwy)
4. Bu'n rhaid dirymu neu wrthod ceisiadau cynllunio
5. Mae DCWW wedi cadarnhau mai dim ond un Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) sy'n stripio ffosffad yng Nghyngor Sir Ceredigion (Llanddewi Brefi) ac mae cynlluniau heb eu cadarnhau y gall un arall (Tregaron) gael ei gynnwys yn y cyfnod Cynllunio Rheoli Asedau, 2025-2030.
6. Mae gwaith rhagarweiniol ar ddosrannu ffynonellau (gan DCWW ar Afon Gwy) yn dangos bod cyfran ffosffad sylweddol yn dod o amaethyddiaeth yn ogystal ag o Waith Trin Dŵr Gwastraff.

Mewn cyfarfodydd craffu blaenorol, gofynnodd yr aelodau am gael cwrdd â chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru a DCWW i drafod sefyllfa ffosffad yng Ngheredigion, yn ogystal â materion ynghylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn rhyddhau elfion i ardaloedd afonol eraill CSC (sef harbwr Aberaeron) a'r amserau ymateb ar

gyfer ymgynghori gan y gwasanaeth Rheoli Datblygu.
Felly, cysylltwyd â DCWW a Chyfoeth Naturiol Cymru a chytunodd swyddogion perthnasol i'r meysydd pwnc dan sylw fod yn bresennol.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam Na, gan nad yw'r drafodaeth hon yn llunio nac yn datblygu polisi.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:**

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Dim argymhellion ffurfiol; trafodaeth er gwybodaeth yn unig.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Enw Cyswllt: Dr Sarah Groves-Phillips
Teitl: Rheolwr Gwasanaeth Polisi Cynllunio
Dyddiad yr Adroddiad: 13/12/2021
Acronymau: GTDG - Gwaith Trin Dŵr Gwastraff
DCWW - Dŵr Cymru Welsh Water
CNC - Cyfoeth Naturiol Cymru
CGT - Canolfan Gwasanaethau Trefol